ymgynghoriaeth gwynedd consultancy
gwasanaeth amlddisgyblaethol / a multidisciplinary service

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Huw Williams, B.Sc., C.Eng., C.Env., F.I.C.E.
Pennaeth Gwasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd
Head of Gwynedd Consultancy Service

Gofynnwch am/Ask for **LE Pennington**
☎(01341) 424469
07775 012248
louisepennington@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: **CPF 2530/LEP**
Eich Cyf / Your Ref:

Ms Catherine Hunt
Dirprwy Glerc
**Gwasanaeth Pwyllgorau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Catherine.Hunt@wales.gov.uk** / ES.comm@wales.gov.uk

22ain Mehefin 2012

Annwyl Ms Hunt,

**Tystiolaeth ysgrifenedig i Ymchwiliad ar Ddiogelu'r Arfordir, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Diolch yn fawr i chi am wahodd Canolfan Monitro Arfordir Cymru (CMAC) fel rhan-ddeiliad i gyfrannu at ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyn bo hir, ar Ddiogelu'r Arfordir yng Nghymru.

Mae CMAC yn fenter ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i gyfarwyddo'r broses o reoli llifogydd a risg erydu arfordirol yng Nghymru RHLLREA. Lleolir CMAC yng Nghyngor Gwynedd ac mae cyfarwyddyd a chyfeiriad y Ganolfan yn cael ei roi gan y Bwrdd Prosiect sydd yn adrodd i Fforwm Grŵp Arfordir Cymru. Nod CMAC yw gwella pum targed o safbwynt gweithgareddau monitro arfordirol sef:

- *Cyfathrebu*
  Datblygu a gwella dull o gydweithio rhwng cyrff.
- *Effeithlonrwydd*
  Amlygu'r potensial a gwireddu'r cyfleoedd ar gyfer amser ac arbedion cost.
- *Cysondeb*
  Uchafu'r gweithgareddau monitro drwy safoni'r dull Cenedlaethol.
- *Gwybodaeth*
  Defnyddio data a dadansoddiad i wella dealltwriaeth prosesau'r arfordir a'r risgiau.
- *Cyngor*
  Datblygu sail tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau rheoli ar bob lefel.

Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan wedi ei hariannu hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, gydag achos busnes yn cael ei lunio fel cais i Lywodraeth Cymru am estyniad ariannu o bum mlynedd.

Cyflwynir isod ein tystiolaeth ysgrifenedig sy'n ymdrin â chylch gorchwyl yr ymchwiliad, a hyderwn y bydd y cynnwys o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

**_Asesu'r cynnydd wnaed gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lle ceir perygl o lifogydd i weithredu amcanion y Strategaeth Genedlaethol - Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru_**

Cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol i'r RHLLREA yng Nghymru ar y 14eg Tachwedd 2011, a daeth cynrychiolydd o'r Ganolfan i'r digwyddiad lawnsio yn y Borth, Ceredigion. Mae'r Strategaeth yn gosod pedwar amcan cyffredin i'r RHLLREA yng Nghymru, sef:

(1) Lleihau canlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
(2) Codi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ac erydu arfordirol ac ymgysylltu gyda phobl i ymateb i hyn;
(3) Darparu ymateb effeithiol a chyson i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol;
(4) Blaenoriaethu buddsoddi yn y cymunedau hynny sydd â'r risg mwyaf.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol gyntaf hon yn sefydlu fframwaith i ddatblygu system RHLLREA holistig sy'n addas i Gymru. Ei nod yw cynyddu hydwythder y genedl i ymdrin ag effeithiau a chanlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol drwy gyfathrebu gyda, a chefnogi camau gweithredu Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Rheoli Risg a hefyd cymunedau ac unigolion.

Mae'r pwyslais yn awr yn symud i weithredu'r amcanion a rifwyd uchod, er enghraifft:

Amcan (1):
Cwblhawyd map erydu arfordirol Cymru erbyn y dyddiad cau.
Fe gwblhawyd y gwaith o lunio ail argraffiad Cynlluniau Rheoli'r Traethlin (CRHT2) erbyn y dyddiad cau .
Bydd modd cyflwyno Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (SRHRLL) erbyn 2013 gan nad yw'n ystyried erydu arfordirol yn fanwl.
Mae fy nghydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd wedi sefydlu rhaglen waith cynnal a chadw priodol a rheolaidd mewn perthynas ag asedau RHLLREA y cyngor ei hun.

Amcan (2):
Ar hyn o bryd mae fy nghydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd yn ymgymryd â gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth y gymuned am beryglon llifogydd.

Amcan (3):
Mae fy nghydweithwyr cynllunio argyfwng yng Nghyngor Gwynedd yn arwain gyda mynd i'r afael â'r amcan yma.

Amcan (4):
Cred CMAC a Chyngor Gwynedd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru arwain ar ddatblygu system flaenoriaethu yn y dyfodol agos, gyda chanllawiau cysylltiedig i gloriannu'r prosiect a dyraniad ariannol.

Mae rhagor o fesurau cefnogi a nifer o ddarnau canllaw hefyd wedi eu darparu gan Lywodraeth Cymru i ddangos gweithrediad amcanion y Strategaeth:

<u>Datblygu Cynaliadwy: Arweiniad i Awdurdodau Rheoli Risg</u>
Dan Adran 27 Deddf Llifogydd a Rheoli Dŵr 2010, mae angen i rai Awdurdodau Rheoli Risg ystyried datblygu cynaliadwy wrth ymarfer swyddogaethau RHLLREA.

<u>Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol</u>
Mae Adran 10 Deddf Llifogydd a Rheoli Dŵr 2010 angen i Awdurdodau Arweiniol Llifogydd Lleol (awdurdodau lleol yng Nghymru) i ddatblygu, defnyddio a monitro strategaeth i reoli risg llifogydd lleol yn ei ardal.

<u>Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd Canllawiau</u>
Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Asiantaeth yr Amgylchedd baratoi canllaw i gynorthwyo'r Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghymru i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

***Ystyried sut mae amcanion y Strategaeth yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Rheoli'r Traethlin a'r Strategaethau Risg Llifogydd Lleol***

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i hysbysu'r Gweinidog (dan Adran 18 o Ddeddf Llifogydd a Rheoli Dŵr) bob dwy flynedd ar holl agweddau CRHLLREA wnaed gan yr holl Awdurdodau Rheoli Risg. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gynhyrchu oddeutu haf 20014, a bydd yn ymdrin â'r cynnydd cyn belled gan gynnwys Ebrill 2013 i Fawrth 2014. Bwriada Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Llywodraeth Cymru i sgopio'r dull arfaethedig o adrodd yn nes ymlaen eleni i ddod i gytundeb cyn i 2013/14 ddechrau, pan fydd y broses adrodd yn cael ei gweithredu.

Roedd y broses o greu ail argraffiad CRHT2 bron a'i gwblhau pan gyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol yn Nhachwedd 2011, ac felly nid oes unrhyw eglurder yng nghynnwys y CRHT2 o ran cwrdd ag amcanion y Strategaeth. Er hynny, mae hi'n amlwg fod gosod strategaeth reoli tymor hir i'r arfordir o gymorth i bawb i wneud penderfyniadau am fuddsoddi yn y dyfodol, cynaliadwyedd ac ati oherwydd bod polisïau 'cadw'r ffrwyn yn dynn' yn golygu ymroddiad i amddiffyn i'r dyfodol.

Er nad yw CRHT2 yn ddogfennau statudol, gall fod lle i gynnwys adrodd ar gynnydd cyflwyno cynllun gweithredu CRHT2 yn yr adroddiad bob dwy flynedd a nodwyd uchod. Os felly, efallai y gellid casglu gwybodaeth o amryfal adroddiadau blynyddol grwpiau arfordirol (yn cynnwys adroddiadau monitro) a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru wrth hawlio arian cymorth grant. Wrth gwrs bydd angen tynnu sylw at unrhyw newidiadau mawr i'r CRHT2 drwy'r broses adrodd, fel newidiadau i bolisiau neu ychwanegu camau neu eu dileu. Yn ymarferol, dylai meini prawf cyflwyno cynllun gweithredu CRHT2 yn y dyfodol fod yr un fath yng Nghymru ac yn Lloegr er hwylustod y grwpiau arfordirol hynny sy'n mynd dros y ffin.

O ran paratoi ar gyfer SRHRLL, nid oes un wedi ei gwblhau yng Nghymru eto a phan fyddant yn barod rydym yn amau mai ychydig iawn o gyfeirio fydd at erydu arfordirol gan mai y prif nod yw ystyried llifogydd o gyrsiau dŵr arferol, dŵr wyneb a dŵr daear yn unig.

***Casglu barn ar sut mae diogelu'r arfordir yn cael ei ariannu a sut y gellid gwella hyn gan roi argymhellion i Lywodraeth Cymru ar sut y gellid gwella cyflwyniad ac ariannu i ddiogelu'r arfordir yng Nghymru***

Arian rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol Llywodraeth Cymru i waith amddiffyn yr arfordir

Mae'r arian i SRHRLL yng Nghymru wedi mwy na threblu ers 1999 ac yn 2009/10 buddsoddodd Llywodraeth Cymru £36 miliwn drwy grant bloc yn SRHRLL. Cafwyd arian ychwanegol o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol ac arian Ewropeaidd, gyda chyfanswm buddsoddiad Llywodraeth Cymru ar SRHRLL ar draws Cymru yn 2009/10 yn £42 miliwn. Roedd hwn yn swm sylweddol ond efallai y bydd angen hyd yn oed mwy yn y dyfodol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae mynediad i arian Ewropeaidd wedi galluogi dyraniad ariannu cyfatebol i hwyluso cyflwyno prosiectau cyfalaf amddiffyn yr arfordir fel yn Nhywyn yng Ngwynedd, a chynlluniau cyfagos yn y Borth yng Ngheredigion a Bae Colwyn yng Nghonwy, a fyddai wedi bod yn amhosib gyda arian Llywodraeth Cymru yn unig.

Mae Deddf Diogelu'r Arfordir (1949) yn galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig grantiau i Awdurdodau Lleol Morol (ALLM) tuag at gost gwaith cyfalaf priodol a wnaed o dan y ddeddfwriaeth. Mae'r gyfradd cymorth grant presennol yn amrywio o 35% i 75% ac uwchben trothwy gwariant penodol gall fod yn 100%. Nod yr ystod o gyfraddau grant yw cydnabod y baich ariannol mae ymrwymiadau diogelu'r arfordir yn ei roi ar ALLM arbennig. Mae cyfradd y grant yn cael ei gyfrif yn benodol i bob cais ALLM ac yn cael ei benderfynu yn ôl baich presennol yr ALLM h.y. lefel gwariant ar gynlluniau diogelu'r arfordir yn yr 20 mlynedd diwethaf, a'i allu cymharol i godi arian, gaiff ei adlewyrchu gan gyfartaledd eiddo Band D Treth y Cyngor yr ALLM.

Arian CRHLLREA Lloegr i waith diogelu'r arfordir

O'r 1 Ebrill 2008 cafodd y cyfrifoldeb am gymeradwyo a thalu cymorth grant cyfalaf i amddiffyn rhag llifogydd ar draws yr holl awdurdodau yn Lloegr ei drosglwyddo i Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos nad ydynt yn rhagweld y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru.

Ym mis Mai 2011, cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd yn Lloegr bolisi newydd gan ar Ariannu Partneriaethau Llifogydd a Hydwythdedd Erydu Arfordirol. Mae'r polisi yma yn disgrifio dull newydd o ariannu prosiectau yn dechrau yn 2012/13 yn Lloegr, fydd yn lleihau peryglon llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r polisi yn caniatáu i brosiectau CRHLLREA i wneud cais am gymorth grant canolog ac mae'n annog fod arian o ffynonellau eraill yn cael ei ddiogelu. Mae cyfran yr ariannu canolog mae prosiect yn ei dderbyn yn dibynnu ar y manteision a ddaw ohono.

Yn lle cwrdd â holl gostau nifer gyfyngedig o brosiectau, o dan y dull newydd bydd cyfran o arian y Llywodraeth ar gael i unrhyw gynllun gwerth chweil. Bydd lefelau ariannu bob cynllun yn ymwneud yn uniongyrchol â'r manteisio a gyflwynwyd. I gynlluniau sy'n gymwys i gael arian llawn, gall arbedion cost neu gyfraniadau olygu fod y cynllun yn cael ei gyflwyno yn gynt gan ryddhau arian i ganiatáu i gynlluniau eraill fynd rhagddynt. I'r cynlluniau sydd heb dderbyn arian llawn gan y Llywodraeth i fwrw ymlaen, bydd angen i'r costau naill ai gael eu lleihau neu fod gweddill yr arian yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau lleol.

Arian ar gyfer gwaith monitro arfordirol strategol

Ers 1992, mae addasiadau ariannu Llywodraeth Cymru wedi galluogi i gymorth grant hefyd i ariannu astudiaethau yn cynnwys gweithgareddau monitro'r arfordir yn hytrach na dim ond cyflwyno cynlluniau cyfalaf amddiffyn yr arfordir. O'r pedair menter monitro arfordir strategol gaiff eu harwain gan ALLM yng Nghymru ar y funud, mae Grŵp Peirianneg Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin gaiff ei gadeirio gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cymorth grant ar raddfa o 35%, mae Cyngor Gwynedd yn derbyn cymorth grant o 45%, Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn cymorth grant o 55% a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn cymorth grant o 65%. Yn 2012, amcangyfrifodd CMAC fod y gwariant blynyddol cyfartalog gan ALLM Cymru i weithgareddau monitro arfordirol strategol yn y cyfnod o dair blynedd o 2009/10 i 2011/12 yn £169,000 gyda £97,000 yn gymorth grant ariannwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Er hynny, yn Lloegr mae'r holl raglenni monitro arfordirol yn derbyn y cymorth grant llawn o 100%. Mae'r arwyddion o Lywodraeth Cymru hyd yma yn awgrymu na fydd cyfradd grant 100% yn cael ei gynnig yng Nghymru yn rhannol oherwydd pryderon os nad yw ALLM yn cyfrannu yn ariannol yn uniongyrchol, bydd gan yr ALLM lai o berchnogaeth a diddordeb yn y rhaglen. Mae absenoldeb cymorth grant 100% yng Nghymru yn gyfyngiad sylweddol ar lwyddiant unrhyw raglen monitro arfordirol strategol gan y bydd pob partner ALLM yn gorfod dod o hyd i'r arian sy'n weddill o'u ffrydiau refeniw (cyfyng) eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi crybwyll y bydd ALLM ond yn gymwys i dderbyn arian cymorth grant yn y dyfodol pan fo eu gweithgareddau monitro arfordirol yn cydymffurfio gyda'r rhaglen Genedlaethol a'r canllawiau gaiff eu llunio gan CMAC maes o law.

Deallwn fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad o weithdrefnau ariannu CRHLLREA yn nes ymlaen yn 2012.

Edrychaf ymlaen at fynychu'r ymchwiliad ar ddydd Iau 5ed o Orffennaf, 2012 gyda fy nghydweithiwr Emlyn Jones. Yn y cyfamser, os ydych yn dymuno trafod y dystiolaeth ysgrifenedig yma, cysylltwch â mi os gwelwch yn dda.

Yn gywir,

Louise Pennington
Cydlynydd Prosiect, Canolfan Monitro Arfordir Cymru